

Lenalidomide ar gyfer trin syndromau myelodysplastig sy'n gysylltiedig ag abnormaledd dileu 5q sytogenetig unigol

Medi 2014

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir [Lenalidomide](#) (a elwir hefyd yn Revlimid). Mae'r cyffur hwn yn ffordd bosibl o drin pobl ag [anemia sy'n dibynnu ar drallwysiad, wedi'i achosi gan syndromau myelodysplastig risg isel- neu ganolradd-1 sy'n gysylltiedig ag abnormaledd dileu 5q sytogenetig unigol](#), pan na fydd triniaethau eraill wedi gweithio'n ddigon da.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych anemia sy'n dibynnu ar drallwysiad, wedi'i achosi gan syndromau myelodysplastig risg isel- neu ganolradd-1 sy'n gysylltiedig ag abnormaledd dileu 5q sytogenetig unigol a bod eich meddyg o'r farn mai lenalidomide yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai lenalidomide fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Argymhellwyd lenalidomide oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae syndromau myelodysplastig risg isel- neu ganolradd-1 yn gyflyrau sy'n gysylltiedig â'r gwaed lle na chaiff digon o fath penodol o gell gwaed ei gynhyrchu. Mae gan rai pobl â syndrom myelodysplastig fwtadiad genetig penodol, o'r enw abnormaledd dileu 5q sytogenetig unigol. Gall pobl â

syndromau myelodysplastig sy'n gysylltiedig ag abnormaledd dileu 5q sytogenetig unigol ddatblygu anemia difrifol a gall fod angen trallwysiadau gwaed rheolaidd arnynt. Mae anemia yn gyflwr lle nad oes gan unigolyn ddigon o gelloedd gwaed coch yn ei waed i gludo ocsigen o amgylch y corff.

Mae lenalidomide (a elwir hefyd yn Revlimid) yn gyffur sy'n effeithio ar weithrediad eich system imiwnedd.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- CancerHelp UK – gwefan gwybodaeth i gleifion Cancer Research UK, 0808 800 4040, www.cancerhelp.org.uk
- Leukaemia CARE, 08088 010 444, www.leukaemiacare.org.uk
- Grŵp Cymorth Cleifion MDS UK, 020 7733 7558, www.mdspatientsupport.org.uk
- Cymorth Cancer Macmillan, 0808 808 0000, www.macmillan.org.uk
- Sefydliad Canserau Mwy Anghyffredin, 0800 334 5551, www.rarercancers.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-0826-4